# PWYLLGOR YMGYNGHOROL RHIANTA CORFFORAETHOL

DYDD MAWRTH, 19 GORFFENNAF 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Lent(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr De'Ath, Evans, Goddard, Sanders a/ac White |

## 1 : PENODI CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Lent (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros y Blynyddoedd Cynnar, Plant a Theuluoedd) yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Mai 2016.

## 2 : AELODAETH Y PWYLLGOR

Penodwyd y Cynghorwyr Lent (Cadeirydd), De'Ath, Evans, Goddard, Merry a White yn Aelodau o'r Pwyllgor hwn yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Mai 2016.

## 3 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Sarah Merry.

## 4 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

## 5 : ADRODDIAD DIGWYDDIAD GWRANDO'R GWASANAETH EIRIOLAETH IEUENCTID CENEDLAETHOL MAWRTH 2016

Croesawodd y Cadeirydd Elly Jones (Arweinydd Project, Gwasanaeth Ymgynghorol Ieuenctid Cenedlaethol) a Dorian Lewis i'r cyfarfod i gyflwyno Adroddiad yn ymwneud â'r digwyddiad a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2016 yn swyddfeydd y Tîm Plant Mewn Gofal 14+ yn Nhŷ Suffolk. Mynychodd 13 o bobl ifanc y digwyddiad, ynghyd â nifer o Gynghorwyr a Swyddogion. Roedd yr adroddiad yn trafod nifer o argymhellion gan gynnwys mynediad at gyngor a gwasanaethau cymorth, gymorth ariannol pellach a thai/llety.

Cafodd y Swyddogion gyfle i gyflwyno sylwadau ar yr argymhellion. Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei gyflwyno ar ffurf adborth i'r bobl ifanc, fodd bynnag, cyflwynodd yr wybodaeth ganlynol i'r Pwyllgor mewn perthynas ag argymhellion yr adroddiad:-

- Byddai Meic Cymru, sef gwasanaeth 24 awr, yn cael ei hybu'n ehangach. Mae App cyfryngau cymdeithasol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a fydd yn nodi'r wybodaeth.

- Ar hyn o bryd, nid oes modd cynyddu lwfansau wythnosol.

- Mae’r project Gateway bellach yn cynnig mwy o gymorth mewn perthynas â materion tai a llety'n gyffredinol.
- Mae modd ystyried buddion ychwanegol megis mynediad at gyfleusterau chwaraeon a hamdden am ddim a thocynnau bysus.

- Hoffai pobl ifanc gael pasbort wrth adael gofal; ar hyn o bryd dim ond trwydded yrru dros dro y mae modd iddynt ei chael.

- Mae’n bwysig bod pobl ifanc yn derbyn gwybodaeth am newidiadau i’r staff sy’n gweithio gyda hwy, yn benodol eu gweithiwr cymdeithasol os ydynt yn gadael y Cyngor er enghraifft.

Cafodd y Pwyllgor gyfle i wneud sylwadau, ceisio eglurder neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd.  Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Soniodd yr Aelodau am y bobl oedd yn y digwyddiad, a oedd o'r farn y dylid penodi mwy o Ymgynghorwyr Personol gan holi pam bod recriwtio Ymgynghorwyr Personol yn drafferthus.
  Cadarnhaodd Swyddogion bod 3 swydd gwag ar hyn o bryd, mae’r cyfweliadau wedi’u trefnu ar gyfer mis Awst, ac mae un Ymgynghorydd ar gyfnod mamolaeth ar hyn o bryd.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at bryderon ynghylch Gweithwyr Cymdeithasol, gan nodi'n bennaf y dylid penodi mwy o weithwyr cymdeithasol a rheoli'r pontio os yw Gweithiwr Cymdeithasol yn gadael.
  Nododd y Swyddogion bod cynnydd wedi’i wneud o ran sicrhau bod pobl ifanc yn cael mynediad at Weithwyr Cymdeithasol.

- Nododd yr Aelodau eu bod o’r farn y dylid cynrychioli pobl ifanc ar y Pwyllgor hwn.

- Nododd Swyddogion eu bod wedi ceisio cyflenwi adroddiad cytbwys sy’n trafod yr wybodaeth a gafwyd ar y diwrnod, yn benodol gan nad oedd yr holl bobl ifanc eisiau mynegi eu barn gan nad oeddynt yn credu y byddai hynny’n arwain at ganlyniad positif.

- Trafododd yr Aelodau y galw am ddigwyddiad Adborth gyda’r bobl ifanc.

CYTUNWYD:  Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

## 6 : PLANT SY'N DERBYN GOFAL - ADRODDIAD AR LEOLIADAU Y TU ALLAN I'R SIR 2015/2016

Croesawodd y Cadeirydd Debbie Martin-Jones (Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Arbenigol) a gyflwynodd yr adroddiad a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y sefyllfaoedd ble mae trefniadau Lleoli Allan o’r Ardal wedi’u gwneud er mwyn bodloni anghenion y plant.

Cafodd y Pwyllgor gyfle i wneud sylwadau, ceisio eglurder neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd.  Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Ceisiodd yr Aelodau eglurder ynghylch y trefniadau lleoli ôl-weithredol a rhoddwyd gwybod iddynt bod rhai lleoliadau yn cael eu trefnu heb eu cyfeirio at y Panel.
  Mae'r Panel, sy'n cael ei arwain gan Iechyd, yn cyfarfod unwaith y mis ac weithiau mae angen adnabod lleoliadau'n gyflym, fodd bynnag, caiff yr holl leoliadau ôl-weithredol eu craffu'n unigol.

- Nododd y Swyddogion nad oedd cynlluniau ar hyn o bryd i'r awdurdod gynyddu darpariaeth llety, ac er bod Crosslands yn cynnal ei safonau uchel roeddent mewn cyfnod ansicr a heriol o ystyried y cynnydd diweddar mewn pobl a oedd angen lleoliadau preswyl.

- Trafododd yr Aelodau yr angen i sicrhau bod gan bawb fynediad at y swyddog eiriolaeth.

## 7 : ADRODDIAD CANFYDDIADAU ARCHWILIAD GWASANAETHAU PLANT AC ADDYSG

Croesawodd y Cadeirydd Irfan Alam (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gwasanaethau Plant) i'r cyfarfod a chyflwynodd y rhan Gwasanaethau Plant o'r adroddiad a oedd yn ymwneud ag archwiliad yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru o'r Gwasanaethau Plant ym mis Ionawr 2016.

Roedd yr archwiliad yn cynnwys ystyriaeth o drefniadau mynediad plant a phobl ifanc a'u teuluoedd a oedd un ai wedi'u cyfeirio at ofal a chymorth, neu ble bo gwybodaeth am lesiant plentyn wedi'i derbyn; ac hefyd adolygiad o effeithiolrwydd y rhyngwyneb rhwng darpariaeth ataliol a statudol. Ni chanolbwyntiwyd ar wasanaethau plant anabl.

Clywodd yr Aelodau am ganlyniad positif yr adroddiad hwnnw a chafwyd cadarnhad y byddai'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad yn cael eu hymgorffori yn y cynllun busnes.

Croesawodd y Cadeirydd Gillian James (Arweinydd Cyflawni, Cau'r Bwlch) i'r cyfarfod, a chyflwynwyd yr elfen Addysg ar yr adroddiad a oedd yn ymwneud ag ymweliad monitro Estyn rhwng 25 Ionawr a 29 Ionawr 2016. Cafwyd cadarnhad bod Caerdydd wedi gwneud cynnydd penodol o ran yr argymhellion a nodwyd yn yr ymweliad monitro ym mis Chwefror 2014 ac o ganlyniad nid oes angen gwelliant sylweddol na gweithgareddau pellach.

CYTUNWYD: Nodi cynnwys yr adroddiad a'r atodiadau.

## 8 : PERFFORMIAD CHWARTER 4 2015/2016

Croesawyd Kim Brown (Rheolwr Gwasanaeth, Polisi a Pherfformiad) i'r cyfarfod a gyflwynodd yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd sicrhau bod y Pwyllgor yn gallu deall y ffactorau sy'n effeithio ar ganlyniadau plant mewn angen a phlant sy'n derbyn gofal, ac hefyd i alluogi aelodau'r Pwyllgor i ystyried cyfleoedd i wella'r canlyniadau hyn.

Rhoddwyd gwybod i’r aelodau bod cynnydd parhaus, ond roedd hefyd ychydig o lithriad mewn rhai meysydd a nodwyd yn yr adroddiad.

Cafodd y Pwyllgor gyfle i wneud sylwadau, ceisio eglurder neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Holodd yr aelodau am gadernid y gofynion monitro ynghylch Diogelu a rhoddwyd gwybod bod ystod o fesurau perfformiad ac adrodd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.
  Mae’r SAA yn monitro hefyd, ac yn adrodd bob yn ail blwyddyn.

- O ran yr wybodaeth am Arbedion, pwysleisiodd yr Aelodau’r pwysigrwydd o sicrhau bod cyllidebau yn cael eu hamddiffyn i sicrhau bod modd amddiffyn plant ifanc, gan holi a oedd yr arbedion yn rhesymol ac yn realistig.
  Nododd y Swyddogion ei bod hi’n anos i ddod o hyd i arbedion ac i’w gweithredu. Os yw plentyn yn dod i mewn i ofal, mae hyn oherwydd mai dyma sy'n siwtio ei anghenion orau.

- Mae’n rhaid ymrwymo i gynnig y lleoliadau gorau i blant y system, ac er eu bod yn y system am resymau da efallai na fyddai angen iddynt fod yn y system gyda gwell Gymorth Cynnar. Gallai cynnal Cymorth Cynnar sicrhau eu bod yn gallu aros gydag eu teuluoedd.

CYTUNWYD: Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

9 : RHAGLEN WAITH 2016 - 2017

Trafododd yr Aelodau gynnwys y Rhaglen Waith Ddrafft:

- Awgrymwyd y dylid cynnal sesiwn adborth ar ôl cyflwyno Adroddiad Digwyddiad Gwrando ar gyfer Aelodau a phobl ifanc.

- Trafododd yr aelodau y math o ymweliadau y dylid eu trefnu: CHAD, Ysgol Gynradd Tredelerch, Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a Chartref Plant y tu allan i’r sir.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y byddai digwyddiad Bright Sparks yn cael ei gynnal yn Neuadd y Ddinas ar 9 Rhagfyr 2016.

CYTUNWYD: Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

10 : ADRODDIAD RHEOLIAD 32

Nid oedd yr eitem hwn i’w gyhoeddi yn unol â pharagraff 12, Rhan(nau) 4 a 5 Deddf Llywodraeth Leol 1972. CYTUNWYD y dylid gwahardd y cyhoedd yn ystod yr eitem hon.

Roedd Debbie Martin-Jones (Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Arbenigol) yn bresennol i gyflwyno’r adroddiad.

11 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nododd y Pwyllgor ddyddiadau'r cyfarfodydd nesaf fel a ganlyn:

- Dydd Mawrth 13 Medi 2016 am 2.00 pm, Ystafell Gynadledda 1
- Dydd Mawrth 22 Tachwedd 2016 am 2.00 pm, Ystafell Gynadledda 4
- Dydd Mawrth 17 Ionawr 2017 am 2.00 pm, Ystafell Gynadledda 1

Dydd 21 Mawrth 2017 am 2.00 pm, Ystafell Gynadledda 4

Daeth y cyfarfod i ben am 4.40 pm